



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid

6 Ebrill 2022

Annwyl Peredur,

### **Bil Drafft Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru)**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth 2022 lle rydych yn gofyn imi nodi safbwynt y Llywodraeth ar bob un o gynigion y Bil drafft, yn ogystal â rhoi gwybod ichi a fyddai'r Llywodraeth yn gefnogol i'r Pwyllgor gyflwyno'r Bil. Rwyf i wedi ymateb i'r holl gynigion isod, ond byddwn wrth gwrs, yn hapus i gyfarfod â chi i drafod unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r mater hwn eto.

I grynhoi, mae gen i ofn nad wyf i'n cytuno â chi bod yr achos ar gyfer y Bil yn un cryf. Mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu'r prif gynigion yn fater o egwyddor, ac nid yw'r Llywodraeth chwaith yn ystyried bod y materion sy'n weddill – yn rhai bychan ar y cyfan – yn rhai o flaenoriaeth. Mae'r Llywodraeth yn gwbl glir felly nad yw'n cefnogi'r broses o gyflwyno Bil.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch yr wyth cynnig allweddol yn y Bil drafft fel a ganlyn.

**Cynllun ar gyfer codi ffioedd etc.** Ymddengys mai dyma yw'r cynnig pwysicaf o safbwynt Archwilio Cymru, ac wedi ystyried yr hyn yr ymgeisir amdano yn fanylach, mae'n gynnig rydym yn ei wrthwynebu'n gryf.

Yn groes i'r hyn sydd wedi'i awgrymu gan Archwilio Cymru, rydym yn deall y fframwaith deddfwriaethol ynghylch prosesau archwilio yng Nghymru yn dda iawn. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chefnogaeth Swyddfa Archwilio Cymru yw cwblhau'r swyddogaethau archwilio a swyddogaethau eraill sy'n gysylltiedig â chyllid y caniateir ar eu cyfer mewn statud mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn greaduriaid statud, nid oes

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

modd iddynt wneud unrhyw beth arall. Darperir ar gyfer cynllun codi ffioedd yn y ddeddfwriaeth, ond gellir ond gweithredu ar sail adennill costau yn unig.

Mewn geiriau eraill, nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru y pwerau, yn ei hanfod, i weithredu (mewn unrhyw ffordd) yn endidau preifat er mwyn cynhyrchu elw. Nid oes ganddynt chwaith unrhyw bwerau i weithredu oni bai mewn perthynas â Chymru.

Yn debyg i'r holl ddarpariaethau eraill a wneir yn neddfwriaeth y Senedd, gall adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), sy'n nodi (ymhlith materion eraill) y gall Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu gwasanaethau proffesiynol i "awdurdod cyhoeddus" ond fod yn gymwys "mewn perthynas â Chymru". (Mae safbwynt y Llywodraeth yn glir nad yw archwilio awdurdodau cyhoeddus dramor yn berthnasol i Gymru).

Mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu unrhyw gynnig a fyddai'n galluogi i'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru i weithredu, yn ei hanfod, yn weithredwyr masnachol. Ystyria'r Llywodraeth hynny i fod yn amhriodol ac yn ddianghenraid. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn fod posibilrwydd o groes-gymorthdaliadau, yn ogystal â mantais gystadleuol annheg mewn perthynas â gwaith masnachol o ganlyniad i ddiffyg gwahaniad clir o gyfrifon rhwng gweithgareddau cyhoeddus a phreifat. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu unrhyw awgrym y dylai'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru allu darparu gwasanaethau i endidau tramor, rhywbeth na ellid darparu ar eu cyfer yn neddfwriaeth y Senedd beth bynnag oherwydd y cyfyngiadau ar ei chymhwysedd deddfwriaethol. Yn debyg i holl gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, dylai'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ganolbwyntio'n barhaus ar wella llesiant pobl Cymru.

O ran y newid arfaethedig manylach i'r trefniadau ar gyfer codi tâl ar awdurdodau cyhoeddus Cymru, mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu hynny gan ei bod o'r farn y byddai hyn yn galluogi dymuniad Archwilio Cymru i weithredu i safon wahanol i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru (fel sydd wedi'i nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, neu wrth sicrhau effeithlonrwydd a chadw cofnodion). Dylai ysgogi effeithlonrwydd fod yn nod i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus p'un a yw taliadau yn cael eu codi ai peidio, yn ogystal â sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw er mwyn sicrhau bod taliadau cywir yn cael eu codi ar y rhai hynny sy'n talu am wasanaethau.

**Trefniadau Cworwm.** Mae rôl y cyfarwyddwyr anweithredol o ran sicrhau bod gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael ei oruchwylio yn effeithiol yn hanfodol i'r system sydd wedi'i rhoi ar waith gan Ddeddf 2013 (ac mae'n gysyniad sydd wedi ei fabwysiadu mewn deddfwriaethau eraill ers hynny). Diben gofynion cworwm y cyfarwyddwyr anweithredol yw sicrhau bod craffu priodol ar waith, yn ogystal â sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn briodol – materion sy'n mynd y tu hwnt i unrhyw bleidlais a allai ddigwydd o bryd i'w gilydd ar benderfyniad. O ganlyniad felly, ni fyddai'r Llywodraeth yn gallu cefnogi'r trefniadau cworwm arfaethedig.

**Adroddiadau interim.** Er bod y gofyniad i ddarparu adroddiadau interim wedi'i gynnwys yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 am reswm da, gan nad oes gofyniad tebyg ar unrhyw sefydliad sector cyhoeddus arall i ddarparu adroddiadau interim, ni fyddai'r

Llywodraeth mewn egwyddor yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig hwn. Fodd bynnag, byddai angen ystyried y cynigion a'r darpariaethau'n fanwl cyn y gallai'r Llywodraeth gadarnhau ei chefnogaeth.

**Gosod adroddiadau a chyfrifon.** Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y newid i'r gofyniad gosod yn gais rhesymol mewn egwyddor, ar yr amod bod yr adroddiad a'r cyfrifon yn cydymffurfio'n llawn â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Byddai angen ystyried y cynigion a'r darpariaethau'n fanwl unwaith eto cyn y gallai'r Llywodraeth gadarnhau ei chefnogaeth.

**Terfynau amser ardystio.** Byddai'r Llywodraeth yn fodlon â'r newidiadau arfaethedig mewn egwyddor, ar yr amod bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi esboniad llawn i'r Senedd ynglŷn â pham na ellir cyrraedd y terfyn amser o bedwar mis, yn ogystal â darparu amserlen arfaethedig. Byddai angen ystyried y cynigion a'r darpariaethau'n fanwl cyn y gallai'r Llywodraeth gadarnhau ei chefnogaeth.

**Penodi archwilwyr cyfrifon Archwilio Cymru.** Mae'n aneglur o hyd pam y mae angen y newid. Heb yr eglurhad hwn, ni fyddai'r Llywodraeth yn gallu cefnogi'r newid.

**Penodi aelodau anweithredol.** Mae trosglwyddo aelodaeth am ail dymor (yn unig) yn arfer gyffredin yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oes cyfiawnhad clir pam y mae angen diwygio'r rheolau ar gydnabyddiaeth ariannol. Heb hyn, ni fyddai'r Llywodraeth yn gallu cefnogi'r newid.

**Gofynion ymgynghori.** Unwaith eto, nid oes cyfiawnhad clir dros newid y trefniadau presennol. Heb fanylion pellach, ni fyddai'r Llywodraeth yn gallu cefnogi'r newid arfaethedig.

I gloi, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig i'r cynllun ar gyfer codi ffioedd na'r trefniadau cworwm, na'u bod yn angenrheidiol. Ymhellach i hynny, awgrymwn fod angen eglurhad pellach ynghylch y cynigion sy'n ymwneud â'r broses o benodi archwilwyr, penodi aelodau anweithredol a'r gofynion ymgynghori. Byddai'r Llywodraeth yn fodlon, mewn egwyddor, â'r cynigion sy'n ymwneud ag adroddiadau interim, gosod adroddiadau a chyfrifon, a therfynau amser ardystio, fodd bynnag, byddai angen ystyried y rhain yn fanwl er mwyn cadarnhau y gallai'r Llywodraeth gefnogi'r darpariaethau fel y'u drafftiodd.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government